



## SWYDD DDISGRIFIAD

<b>TEITL Y SWYDD:</b>	<b>CYDLNYDD CHWARAEON</b>
<b>RHEOLWR LLINELL:</b>	Rheolwr Cyfleoedd Myfyrwyr
<b>CYFLOG:</b>	Gradd C UMAber: £19-21k ar hyn o bryd
<b>ORIAU:</b>	Llawn-amser, oriau blynyddol (36.5 awr yr wythnos), i'w gweithio yn hyblyg drwy drefniant â'r rheolwr llinell
<b>DYDDIAD A YSGRIFENNWYD:</b>	3 <sup>ydd</sup> Medi 2019

### DIBEN Y RÔL

Hyrwyddo cyfranogiad myfyrwyr mewn chwaraeon, gan gynnwys cystadlaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, at ddibenion datblygu cymunedau â diddordebau cyffredin, hybu dull o fyw iach i fyfyrwyr a darparu cyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr i'n haelodau.

### DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

#### 1. Grwpiau Myfyrwyr

- Rhoi cyfle i fyfyrwyr greu grwpiau diddordeb sy'n ymwneud â chwaraeon ac iddynt ymuno â nhw
- Cynorthwyo â sefydlu a chynnal grwpiau diddordeb a rennir ar gyfer myfyrwyr
- Gweithio gyda chydweithwyr i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer grwpiau myfyrwyr ar draws yr aelodaeth, yn enwedig yn ystod adegau allweddol y flwyddyn, fel y cyfnod sefydlu ac ail wythnos y glas
- Sicrhau bod pob grŵp myfyrwyr sy'n ymwneud â chwaraeon yn gweithredu'n unol â pholisïau a gwerthoedd UMAber, gan gynnwys yn benodol y ddarpariaeth iechyd a diogelwch
- Sicrhau bod yswiriant priodol mewn lle ac y caiff prosesau a pholisïau cysylltiedig eu dilyn i amddiffyn UMAber a'i aelodau o ran gweithgareddau grwpiau myfyrwyr
- Cadw a chynnal cronfa-ddata effeithiol o'r aelodaeth, gan adrodd yn ôl ar lefelau cyfranogiad

- Gweithio gyda chydweithwyr yn adran reoli cyfleusterau'r Brifysgol i ddarparu grwpiau myfyrwyr â'r cyfleusterau angenrheidiol ar gyfer cynnal eu gweithgareddau

## **2. BUCS a Chwaraeon Cystadleuol**

- Bod yn brif hwylusydd cyfranogiad mewn chwaraeon cystadleuol lleol, ranbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys digwyddiadau BUCS yn benodol
- Gan weithio gyda chydweithwyr yn y Brifysgol a chyda partneriaid eraill, sicrhau darpariaeth briodol o gyfleusterau chwaraeon ar gyfer cynnal gemau 'cartref'
- Gweithio gyda chydweithwyr yn BUCS i sicrhau y caiff adnoddau UMAber eu rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon
- Cydlynu â fforymau rhwydweithio a dylanwadu BUCS (ac eraill) a'u mynychu

## **3. Hyfforddiant a Datblygu'r Aelodaeth**

- Hyrwyddo cyfleoedd am arweinyddiaeth i grwpiau gwirfoddol myfyrwyr fel rhywbeth sydd o fudd i yrfaeod ac i brofiad myfyrwyr
- Cynorthwyo grwpiau chwaraeon i ethol aelodaeth eu pwyllgor gan ddilyn polisiau UMAber
- Gyda chydweithwyr allweddol, datblygu a chynnal cynllun blynyddol ar gyfer hyfforddi arweinwyr grwpiau myfyrwyr i ddarparu'r arweinwyr hynny â'r sgiliau ac adnoddau angenrheidiol er mwyn iddynt wneud gwaith gwych ar ran eu grwpiau
- Cynorthwyo swyddogion etholedig perthnasol i gynrychioli myfyrwyr sy'n ymwneud â chwaraeon/gweithgareddau

## **4. Ymgysylltiad Cymunedol Myfyrwyr**

- Hybu egwyddor ymgysylltiad cymunedol myfyrwyr drwy holl weithgareddau'r adran, gan ystyried y gwerth sy'n deillio o ymdeimlad o berthyn.
- Datblygu ymrwymiad UMAber i wirfoddoli iddo gynnwys arweinwyr grwpiau myfyrwyr.
- Cefnogi digwyddiadau cymunedol myfyrwyr mawr fel Aber 7s a Super Timau, gan weithio gyda adrannau eraill fel sy'n briodol.

## **5. Dyletswyddau eraill:**

- Mynychu cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi a all helpu i gyflawni'r tasgau uchod yn effeithiol, a all hefyd hyrwyddo buddiannau UMAber yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Hyrwyddo UMAber yn gadarnhaol a chynnal ei werthoedd a'i bolisiau.
- Hyrwyddo UMAber a'n gwaith ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol pan ddaw cyfleoedd i wneud hynny.
- Gweithio o fewn telerau dogfennau llywodraethu'r Undeb, yn bennaf y Cyfansoddiad.
- Cyfrannu at gyhoeddiadau a deunydd gwybodaeth Undeb y Myfyrwyr.
- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, gwarchod data, a rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol eraill fel sy'n briodol.

- Helpu yn ystod digwyddiadau allweddol Undeb y Myfyrwyr gydol y flwyddyn gan gynnwys yr Wythnos Groeso a'r Etholiadau
- Bod ag ymagwedd hyblyg at ddyletswyddau a gwaith ac, yn arbennig, mabwysiadu arddull o weithio mewn tîm gydag adrannau a gweithgareddau drwy'r Undeb cyfan. Gall hyn olygu ymgymryd â dyletswyddau sy'n cynorthwyo adrannau eraill â'u gweithgareddau a'u gwasanaethau
- Mae arferion gorau o ran yr amgylchedd yn gyfrifoldeb holl staff Undeb y Myfyrwyr.
- Cyfrannu at brosiectau'r Undeb a chyfranogi mewn gweithgorau
- Cydymffurfio â disgwyliadau ymddygiad a safonau Undeb y Myfyrwyr yn y gwaith bob dydd

### **Newidiadau yn y Swydd Ddisgrifiad**

Gall y swydd ddisgrifiad hwn newid unrhyw bryd ar ôl ymgynghori â deilydd y swydd.

*Ni fwriedir i'r swydd ddisgrifiad hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a ddaw i ran deilydd y swydd. Serch hynny, mae'n gosod allan prif ddisgwyliadau'r Undeb o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deilydd y swydd, a gall fod disgwyl i ddeilydd y swydd ymgymryd â gwaith amgen/ychwanegol sy'n gymesur â'r raddfa gyflog.*

**MANYLEB Y PERSON - CYDLINYDD CHWARAEON**

<b>MEINI PRAWF</b>	<b>Angenrheidiol</b>	<b>Cais</b>	<b>Diwrnod y Cyfweliad</b>
<b>CYMWYSTERAU</b>			
Addysg gyffredinol dda, cyfystyr â Lefel A fel arfer	Hanfodol	√	
<b>PROFIAD</b>			
Profiad o feithrin perthynas gadarnhaol gyda rhanddeiliaid allweddol	Hanfodol	√	√
Profiad o ddatblygu, trefnu neu reoli digwyddiadau a/neu brosiectau	Hanfodol	√	√
Profiad o weithio o fewn cyllideb benodol	Hanfodol	√	
Profiad o helpu grwpiau diddordeb a rennir i fod yn llwyddiannus	Hanfodol	√	√
Profiad o chwarae rhan flaenllaw mewn grŵp diddordeb cyffredin, cymdeithas neu glwb	Dymunol	√	√
Profiad o weithio mewn mudiad dan arweiniad yr aelodaeth	Dymunol	√	
Profiad o ddatblygu neu o gynnal hyfforddiant	Dymunol	√	
Profiad o ddelio â chwestiynau ac ymholiadau gan gwsmeriaid, gwesteion neu ymwelwyr a allai fod yn anfodlon ar adegau	Dymunol		√
<b>GWYBODAETH</b>			
Cymhwysedd TechGwyb gyda hyfedredd wrth ddefnyddio Excel a dealltwriaeth ymarferol o Microsoft Outlook a Word	Hanfodol	√	
Gwybodaeth am arfer da mewn diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol	Dymunol	√	
<b>NODWEDDION a SGILIAU</b>			
Gallu hyrwyddo delwedd gadarnhaol o UMAber	Hanfodol	√	√
Y gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm ac ar eich liwt eich hun	Hanfodol	√	√
Hunan-ysgogol gydag agwedd bositif; hefyd y gallu i gymryd y cam cyntaf i ddynodi tasgau a blaenoriaethu eich gwaith eich hun	Hanfodol	√	√
Cyfeillgar ac agos atoch.	Hanfodol		√
Personoliaeth bwylllog yn enwedig pan fyddwch dan bwysedd, gan oresgyn rhwystrau a phroblemau mewn ffordd adeiladol	Hanfodol		√
Sgiliau rhifedd da	Hanfodol	√	
Dealltwriaeth ac ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywioldeb ac arferion cynhwysol	Hanfodol	√	√
Ymrwymiad i gynnal gwerthoedd Undeb y Myfyrwyr	Hanfodol	√	√
Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg	Dymunol	√	√